


Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Rhaid anfon **pob** Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i BroTOCOLau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

Noder bod gennym Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.



I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, edrychwch ar y Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant neu cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@llyw.cymru

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Cyhoeddi *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd i Gymru, olynydd strategaeth ddeng mlynedd flaenorol Llywodraeth Cymru - o'r enw Siaradwch â fi 2, Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio i Gymru. Mae'r strategaeth hon ar wahân i'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ond mae cysylltiad rhyngddynt. Mae'n gysylltiedig oherwydd bod cael problem iechyd meddwl yn ffactor risg ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio. Fodd bynnag, mae strategaeth ar wahân ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru yn cydnabod nad yw'r mwyafrif o'r rhai sy'n marw drwy hunanladdiad yn cael eu nodi fel rhai sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl.

Nod *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, yw lleihau nifer a chyfraddau'r marwolaethau drwy hunanladdiad sydd wedi parhau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ceisio sefydlu llwybr i gynorthwyo pobl sy'n hunan-niweidio ac i wella cymorth i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad hefyd.

Rydym wedi mabwysiadu dull pob oed wrth ddatblygu'r strategaeth hon i sicrhau bod gennym system a fydd yn cefnogi pawb, ac sy'n hyrwyddo gwell integreiddio rhwng gwasanaethau. Yn y strategaeth drwyddi draw, mae unrhyw gyfeiriad at "bobl" yn golygu unigolion o bob oed, gan gynnwys babanod, plant, pobl ifanc a phobl hŷn.

Mae'r asesiad effaith hwn yn canolbwyntio ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn unig. Mae iechyd meddwl ehangach wedi'i ystyried yn yr Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant Iechyd Meddwl fel rhan o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

Mewn adolygiad cyflym o ddeunyddiau ysgrifenedig a gynhaliwyd gan Swyddogion yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, daeth y dystiolaeth ganlynol i'r amlwg:

- Mae hunan-niweidio yn arbennig o gyffredin ymhlith pobl ifanc, gyda 24 y cant o bobl ifanc 17 oed yn dweud eu bod wedi hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf¹.
- Hunan-niweidio yw'r ail brif achos o farwolaethau yn y boblogaeth 15 i 19 oed.²

¹ <https://www.ncb.org.uk/about-us/media-centre/news-opinion/one-six-report-severe-mental-health-difficulties-age-17>

² Canllawiau – Pynciau Allweddol – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

- Merched sydd i gyfrif am y mwyafrif o ddigwyddiadau hunan-niweidio³. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu derbyn i'r ysbyty ar ôl ymweld ag adrannau argyfwng oherwydd hunan-niweidio. Roedd hyn yn wir hyd yn oed i'r rhai o dan 16 oed, lle mae canllawiau clinigol bob amser yn argymhell eu derbyn i'r ysbyty am asesiad risg llawn.
- Gallai gwaharddiadau ysgol, neu absenoldeb parhaus o'r ysgol, fod yn ddangosyddion o hunan-niweidio sy'n digwydd ar y pryd neu a allai ddigwydd yn y dyfodol yn ogystal ag iechyd meddwl gwael.
- Mae'r ffactorau risg ar gyfer pobl sy'n hunan-niweidio yn cyd-fynd â risgiau diogelu eraill fel cam-drin ac esgeulustod plant, trais partner agos a chamfanteisio rhywiol.⁴ Mae ffactorau risg eraill yn cynnwys cael anhwylder bwyta,⁵ cysylltiadau â chyflyrau iechyd meddwl eraill a chysylltiad â'r system gyfiawnder.
- Hunanladdiad oedd prif achos marwolaeth dynion a menywod rhwng pump a 34 oed yn 2019⁶.
- Mae bron i hanner y bobl ifanc 17-19 oed sydd ag anhwylder iechyd meddwl y gellir rhoi diagnosis iddo wedi hunan-niweidio neu geisio cyflawni hunanladdiad ar ryw adeg, gan godi i 52.7% ar gyfer menywod ifanc⁷.

Ffactorau risg ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio mewn plant a phobl ifanc

Niwed ar-lein

- Roedd gan 26% o achosion o hunanladdiad mewn pobl o dan 20 oed hanes chwilio sy'n gysylltiedig â hunanladdiad⁸.
- Yn yr un modd, ymhlith sampl o gleifion sy'n blant ac yn bobl ifanc sy'n ymgyflwyno i'r ysbyty ar ôl hunan-niweidio, roedd 26% wedi cael mynediad at gynnwys rhyngrwyd sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio. Roedd defnydd o'r rhyngrwyd sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio yn gysylltiedig â lefelau uwch o fwriad hunanladdol⁹.
- Mae tystiolaeth wedi tynnu sylw at dri ffactor risg posibl o hunanladdiad a hunan-niweidio sy'n gysylltiedig â defnydd pobl ifanc o'r cyfryngau cymdeithasol: dod i gysylltiad â chynnwys hunanladdiad a hunan-

³ [Safety in the Children and Young People Secure Estate: Update to September 2023 - GOV.UK](#)

⁴ Canllawiau – Pynciau Allweddol – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

⁵ Clinical management and mortality risk in those with eating disorders and self-harm: e-cohort study using the SAIL databank – PMC (nih.gov)

⁶ <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsregistrationsummarytables/2019#leading-causes-of-death>

⁷ [NHS Digital \(2018\) 'Mental Health of Children and Young People in England, 2017'](#). Yn seiliedig ar 46.8% o bobl ifanc 17 i 19 oed a nodwyd bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl y gellir rhoi diagnosis iddo yn adrodd eu bod wedi niweidio eu hunain neu geisio lladd eu hunain ar ryw adeg

⁸ [Suicide-related internet use among mental health patients who died by suicide in the UK: a national clinical survey with case-control analysis - The Lancet Regional Health – Europe](#)

⁹ [Suicide and Self-Harm Related Internet Use: A Cross-Sectional Study and Clinician Focus Groups - PMC](#)

niweidio mewn mannau ar-lein¹⁰, defnydd trwm a phroblemus o'r cyfryngau cymdeithasol¹¹ a phrofiadau o seibererledigaeth¹².

Tlodi

- Ffactor risg hysbys ar gyfer ymddygiad hunan-niweidio mewn pobl ifanc ac oedolion ifanc yw incwm isel yn ystod plentyndod^{13,14}, a hynny yn sgil, er enghraifft, straen tlodi ar rieni, risg uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a diffyg strategaethau ymdopi digonol. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf bu achosion cynyddol o hunan-niweidio mewn ardaloedd mwy cyfoethog.
- Roedd pobl ifanc o deuluoedd mwy difreintiedig, yn y 40% isaf o'r dosbarthiad incwm, yn ddwywaith yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi ceisio cyflawni hunanladdiad o gymharu â'u cyfoedion mwy breintiedig. Roedd y gyfran sy'n profi trallod seicolegol yn uwch ymhlith y rhai o deuluoedd incwm is hefyd¹⁵.

Bwlio, erledigaeth a gwahaniaethu

- Mae plant sy'n cael eu bwlio yn ystod plentyndod hyd at dair gwaith yn fwy tebygol o hunan-niweidio erbyn iddynt droi'n 12 oed.
- Mae amlygiad i ymddygiad bwlio yn gysylltiedig â risg uwch o brofi meddyliau ac ymddygiadau hunanladdol¹⁶.
- Yn ogystal, mae profiadau o wahaniaethu ar sail hunaniaeth yn gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad¹⁷. Er enghraifft, mae mwy na hanner y disgyblion LHDT yng Nghymru (54 y cant) – gan gynnwys 73 y cant o ddisgyblion trawsryweddol – yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol, sy'n ffactor risg pellach ar gyfer hunanladdiad. Adroddodd dau o bob pump o blant a phobl ifanc drawsryweddol, anneauidd neu sy'n cwestiynu eu rhywedd (41 y cant) eu bod wedi ceisio cyflawni hunanladdiad ar ryw adeg. Ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydynt yn drawsryweddol, mae un o bob pedwar (25 y cant) wedi ceisio cyflawni hunanladdiad¹⁸.

Anghenion dysgu ychwanegol/niwroamrywiaeth

- Mae plant awtistig 28 gwaith yn fwy tebygol o geisio cyflawni hunanladdiad.

¹⁰ A Systematic Review of Social Media Use to Discuss and View Deliberate Self-Harm Acts | PLOS ONE

¹¹ Astudiaeth genedlaethol ar amser a dreulir ar gyfryngau cymdeithasol a hunan-niweidio ymhlith pobl ifanc | Adroddiadau Gwyddonol (nature.com)

¹² Social media use and deliberate self-harm among youth: A systematized narrative review - ScienceDirect

¹³ [Socioeconomic position and self-harm among adolescents: a population-based cohort study in Stockholm, Sweden | Child and Adolescent Psychiatry and Mental Health | Full Text](#)

¹⁴ [Parental socio-economic position during childhood as a determinant of self-harm in adolescence - PubMed](#)

¹⁵ [High levels of serious mental health difficulties among 17-year-olds | CLS](#)

¹⁶ [Understanding the associations between bullying, suicide, and self-harm.](#)

¹⁷ [Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn cefnogi ymdrechion atal hunanladdiad ieuenctid - Tueddiadau Plant – ChildTrends](#)

¹⁸ Adroddiad Ysgol Cymru (2017) | Cymru (stonewallcymru.org.uk)

- Dangosodd un astudiaeth fod gan 15% o blant awtistig feddyliau hunanladdol o gymharu â 0.5% o blant sy'n datblygu yn y modd nodweddiadol¹⁹.
- O ran hunan-niweidio, canfu un astudiaeth fod gan 241 o gyfranogwyr ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth, 2-19 oed (52.3% o gyfranogwyr yr astudiaeth), hanes gydol oes o hunan-niweidio²⁰.
- Tra bod y cysylltiadau rhwng categorïau ymbarél niwroamrywiaeth eraill (e.e., dyslecsia neu ddyspracsia) a hunan-niweidio wedi derbyn llai o sylw mewn gwaith ymchwil, awgrymwyd y gallai unigolion dyslecsig fod yn fwy tueddol o ddefnyddio hunan-niweidio fel dull o ymdopi â thrallod emosiynol²¹.

Grwpiau ethnig leiafrifol

- Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod plant a phobl ifanc ethnig leiafrifol yn cyfrif am gyfran uwch dros amser o unigolion yn ymgylwyno yn yr ysbyty ar ôl hunan-niweidio o gymharu â grwpiau ethnig gwyn. Mae grwpiau ethnig leiafrifol hefyd yn tueddu i fod yn fwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol ac yn llai tebygol o dderbyn asesiad seicolegol^{22 23}.
- Fodd bynnag, mae ymchwil arall wedi dangos bod hunan-niweidio yn fwy cyffredin ymhlith pobl ifanc gwyn yn eu harddegau, o gymharu â phobl ifanc o grwpiau ethnig eraill. Canfuwyd bod cyfraddau hunan-niweidio gyda bwriad hunanladdol yn debyg ar draws pob grŵp ethnig²⁴.

Gofalwyr ifanc

- Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan brosiect Me-We Young Carers²⁵ fod 14% o'r holl bobl ifanc sy'n ofalwyr ifanc yn y sampl ledled Ewrop wedi dweud eu bod wedi meddwl am niweidio eu hunain oherwydd eu rôl ofalu. Ond yn y DU, dyblodd y ffigur i 28 y cant.
- Dywedodd 36% o ofalwyr ifanc a holwyd ar draws chwe gwlad fod eu hiechyd meddwl wedi dirywio o ganlyniad i'w cyfrifoldebau gofalu. Ond yn y DU yn unig, cododd y ffigur hwn i 56 y cant.

Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

¹⁹ Autistica, *Personal Tragedies, Public Crisis: The urgent need for a national response to early death in autism*

²⁰ (PDF) Risk Factors Associated with Self-Injurious Behaviors in Children and Adolescents with Autism Spectrum Disorders (researchgate.net)

²¹ Alexander-Passe N. Dyslexia: Investigating Self-Harm and Suicidal Thoughts/Attempts as a Coping Strategy. J Psychol Psychother. 2015;5:6.

²² Self-harm in children and adolescents by ethnic group: an observational cohort study from the Multicentre Study of Self-Harm in England - The Lancet Child & Adolescent Health

²³ Ethnic differences in self-harm, rates, characteristics and service provision: three-city cohort study - PubMed

²⁴ High levels of serious mental health difficulties among 17-year-olds | CLS

²⁵ Mae ymchwil newydd yn dangos bod tri o bob deg o oedolion sy'n ofalwyr yn y DU yn meddwl am hunan-niweidio - Newyddion a'r Cyfryngau - Newyddion Diweddaraf, Barn a Safbwyntiau | Ymddiriedolaeth Gofalwyr

- Mae ymchwil yn awgrymu bod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o frifo eu hunain ac maen nhw mewn mwy o risg o geisio a chyflawni hunanladdiad na'u cyfoedion hefyd²⁶, oherwydd eu cefndiroedd a'u hamgylchiadau andwyol o fyw mewn gofal^{27 28}.

Ffactorau risg penodol i bobl ifanc mewn addysg drydyddol

- Adroddwyd am gynnydd mewn hunan-niweidio a hunanladdiad yn ystod cyfnodau o arholiadau, gan adlewyrchu o bosibl cyfnodau o straen cynyddol yn ystod y flwyddyn academiaidd²⁹.
- Gall newidiadau bywyd, fel y broses o bontio o'r ysgol i addysg uwch a byw'n annibynnol, waethygu problemau iechyd meddwl a hunan-niweidio³⁰.
- Mae canlyniadau iechyd meddwl gwael mewn myfyrwyr yn gysylltiedig ag unigrwydd, ynysu cymdeithasol, cydbwysedd gwael rhwng astudio/bywyd cymdeithasol, arbrofi gyda chyffuriau ac alcohol, ac amgylchiadau ariannol heriol³¹.
- Dangosodd astudiaeth bellach fod hunan-niweidio a chyflyrau iechyd meddwl wedi cynyddu mwy ymhlith myfyrwyr prifysgol na rhai nad ydynt yn fyfyrwyr³².

Mae ffactorau risg ychwanegol ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith plant a phobl ifanc yn cynnwys:

- Anhwylder dysfforig cyn-mislif (PMDD)
- Anabledd a chyflyrau iechyd corfforol cronig
- Digartrefedd
- Defnydd o sylweddau
- Cysylltiad â'r system droseddol/cyfiawnder

Yn sgil y ffactorau risg a nodwyd trwy'r adolygiad tystiolaeth, aethom ati i drefnu cyfres o weithdai a chyfarfodydd gyda chydweithwyr polisi y gallai eu polisïau a'u strategaethau gyfrannu tuag at atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Er enghraifft, mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda swyddogion sy'n arwain ar y Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru a'r canllawiau ar herio bwlio. Mae trafodaethau yn ystod gweithdai a chyfarfodydd wedi galluogi eraill

²⁶ [Former Stockholm child protection cases as young adults: Do outcomes differ between those that received services and those that did not? - ScienceDirect](#)

²⁷ [Comparison of suicidal ideation, suicide attempt and suicide in children and young people in care and non-care populations: Systematic review and meta-analysis of prevalence - ScienceDirect](#)

²⁸ [Understanding suicide and self-harm amongst children in care and care leavers | Iriss](#)

²⁹ [The incidence of suicide in University students in England and Wales 2000/2001–2016/2017: Record linkage study - ScienceDirect](#)

³⁰ ["Not Always Smooth Sailing": Mental Health Issues Associated with the Transition from High School to College: Issues in Mental Health Nursing: Cyfrol 32, Rhif 4 - Cael Mynediad](#)

³¹ [Self-harm in university students: A comparative analysis of data from the Multicentre Study of Self-harm in England - ScienceDirect](#)

³² [Trends in incidence of self-harm, neurodevelopmental and mental health conditions among university students compared with the general population: nationwide electronic data linkage study in Wales | The British Journal of Psychiatry | Cambridge Core](#)

i ystyried effaith eu polisiâu a'u strategaethau ar y risg o hunanladdiad a hunan-niweidio, ac wedi ein harwain i ystyried effaith ein strategaeth ein hunain ar eu polisiâu a'u strategaethau hwy.

Gwnaethom hefyd gynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector; academyddion; a chynrychiolwyr o'r rhaglen genedlaethol atal hunanladdiad a hunan-niweidio sydd wedi'i lleoli yng Ngweithrediaeth GIG Cymru, lle cynhaliwyd sgysiau helaeth ynghylch y diffiniadau o hunanladdiad a hunan-niweidio a'u heffeithiau.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau³³ o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisiâu sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, gwyddom fod gan hunanladdiad a hunan-niweidio amrywiaeth o ffactorau cyfrannol sylfaenol (a elwir hefyd yn 'ffactorau risg'). Mae ffactorau risg yn cynnwys ffactorau rhyngbersonol (e.e., cefnogaeth gymdeithasol ganfyddedig isel, erledigaeth cyfoedion, hanes o drawma neu gamdriniaeth, perthynas yn chwalu^{34 35}), ffactorau seicolegol (ee., affeithiolrwydd negyddol³⁶, camreoleiddio emosiynol³⁷) a ffactorau iechyd (ee., cyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaol³⁸, cyflyrau iechyd corfforol cronig gydol oes³⁹).

Gwyddom hefyd fod hunanladdiad a hunan-niweidio yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau demograffig cymdeithaso^{40 41 42}. Mae enghreifftiau'n cynnwys byw mewn tldi, ethnigrwydd, oedran, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol person. O ganlyniad, bydd grwpiau o bobl a fydd mewn mwy o berygl o hunanladdiad a hunan-niweidio nag eraill; mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc. Er bod y strategaeth hon yn defnyddio dull pob oedran, poblogaeth at atal hunanladdiad a hunan-niweidio, i liniaru unrhyw effeithiau

³³Er enghraifft, efallai y byddwch yn ystyried effeithiau gwahanol eich polisi ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tldi; Plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant â phrofiad o fod mewn gofal; plant LHDTC+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac nad un profiad unfurf a fydd gan bawb o fewn y carfanau hyn.

³⁴[The Relationship Between Bullying Victimization and Perpetration and Non-suicidal Self-injury: A Systematic Review | Child Psychiatry & Human Development](#)

³⁵[Suicide, Self-Harm, & Traumatic Stress Exposure: A Trauma-Informed Approach to the Evaluation and Management of Suicide Risk: Evidence-Based Practice in Child and Adolescent Mental Health: Cyfrol 5, Rhif 4](#)

³⁶[Negative affectivity and disinhibition as moderators of an interpersonal pathway to suicidal behavior in borderline personality disorder - PMC](#)

³⁷[Emotion Dysregulation and Non-Suicidal Self-Injury: A Systematic Review and Meta-Analysis - PMC](#)

³⁸[Self-harm and life problems: findings from the Multicentre Study of Self-harm in England | Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology](#)

³⁹[Major Physical Health Conditions and Risk of Suicide - PMC](#)

⁴⁰[Sociodemographic inequalities of suicide: a population-based cohort study of adults in England and Wales 2011–21 | European Journal of Public Health | Oxford Academic](#)

⁴¹[Socioeconomic disadvantage and suicidal behaviour bilingual.pdf](#)

⁴²[Socio-economic disparities in patients who present to hospital for self-harm: patients' characteristics and problems in the Multicentre Study of Self-harm in England - PubMed](#)

negyddol posibl, mae'r strategaeth yn sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra'n benodol a'i dargedu at rai poblogaethau hefyd. Bydd hyn yn sicrhau mynediad cyfartal at gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio ar draws pob grŵp poblogaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc o bob oedran, o bob cefndir, gyda lefelau a gofynion cymorth amrywiol.

- Pa waith yn cynnwys plant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.⁴³

Yn ystod haf 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru broses ymgysylltu cyn ymgynghori ar y Datganiadau Gweledigaeth drafft arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (yr enw ar y pryd) ac egwyddorion ategol; cyhoeddwyd arolwg ar-lein a chynhaliwyd grŵp ffocws gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol⁴⁴, gan gynnwys 8 o bobl ifanc gyda phrofiad byw o iechyd meddwl, wedi'i hwyluso gan Cymru Ifanc.

Cynhaliodd Mind Cymru waith ymgysylltu â phobl ifanc a lywiodd y gwaith o ddrafftio'r strategaeth. Tynnodd y grŵp sylw at yr angen i leihau amseroedd aros o ran cael mynediad at gymorth, ond hefyd i ddarparu cymorth i'r rhai sy'n aros. Dylai therapi ganolbwyntio ar yr unigolyn a dylai'r unigolyn gael dewis beth fyddai'n gweithio iddo ac mae angen gwella mynediad at ofal argyfwng priodol i blant a phobl ifanc. Ystyriwyd yr adborth hwn ar draws *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol.

Fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol ar gyfer y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio drafft (yr enw ar y pryd), comisiynwyd y Labordy Cyd-gynhyrchu i ymgymryd â gwaith ymgysylltu pwrpasol wedi'i dargedu gyda phlant a phobl ifanc. Bu wyth ar hugain o blant a phobl ifanc, rhwng 7 a 25 oed, yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Nodwyd nifer o'r themâu drwy ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Mae angen mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc pan fydd ei angen arnynt a chyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.
- Mae hunan-niweidio yn cael ei ystyried fel rhywbeth y mae pobl yn cael eu cosbi amdano, felly mae plant a phobl ifanc yn ofnus ac yn llai tebygol o'i adrodd. Mae angen i ni leihau stigma.
- Byddai plant a phobl ifanc yn defnyddio cymorth lle bynnag y byddai'n cael ei ddarparu. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys ysgolion, clybiau ieuenctid a chymunedol, lleoliadau chwaraeon, prifysgolion a hamdden.

⁴³ Dywed Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant fod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

⁴⁴ Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc 14-25 oed sydd â phrofiad byw neu ddiddordeb arbennig mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant. Nod y grŵp yw mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a rennir gan bobl ifanc ac adolygu mentrau iechyd meddwl a llesiant gan Lywodraeth Cymru.

- Mae angen hyfforddiant ar bobl sy'n gweithio gyda plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i siarad â Phlant a Phobl Ifanc am hunanladdiad a hunan-niweidio.
- Mae angen i ysgolion allu cefnogi disgyblion yn briodol ar ôl marwolaeth trwy hunanladdiad.
- Mae angen deddfau newydd, gwell rhybuddion sbarduno a mwy o ddiogelwch yn erbyn casineb a chamdriniaeth ar-lein.

Lluniodd Llywodraeth Cymru fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Strategaeth er mwyn ymgynghori arni ond ni chyhoeddwyd y strategaeth ar gyfer mynediad agored ar sail cyngor gan arbenigwyr a gododd bryderon diogelu. Nodwyd y rhesymau dros beidio â chyhoeddi yn glir ar y tudalennau gwe yn ogystal â'r broses ar gyfer gwneud cais am gopi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Dim ond nifer fach o geisiadau a gafwyd. Cawsant eu fetio a byddai nodiadau am ddiogelu yn ategu'r Strategaeth.

Yn sgil y gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu a nodir uchod, roedd modd cyflwyno camau diogelu yn y sesiynau o ran y defnydd a wnaed o'r deunyddiau a mynediad at gymorth os oedd angen.

Mae *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi cyflwyno cyfeiriad penodol at y cysylltiadau rhwng materion yn yr ysgol a hunanladdiad a hunan-niweidio fel bwlio, gwaharddiadau ac absenoldeb. Mae'n cydnabod y cysylltiadau â chymorth ieuchyd meddwl ehangach yn yr ysgol hefyd a ddarperir gan wasanaeth cwnsela ysgolion a chymorth CAMHS. Mae gan y strategaeth egwyddor drawsbynciol hefyd sef canolbwyntio ar yr unigolyn gyda phwyslais ar gyfranogiad y rhai sydd â phrofiad byw. Cyfeirir at y thema hon yn gyson yn amcanion 3, 4, 5 a 6 y strategaeth ac rydym wedi sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori yng nghamau gweithredu y cynllun cyflawni cysylltiedig.

I gael cyngor ar waith yn cynnwys plant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas ers tro â Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy eu rhaglen Cymru Ifanc.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Yn y dystiolaeth a gasglwyd trwy ein gweithdai gyda rhanddeiliaid allanol, gwelwyd bod angen i'n diffiniad o hunan-niweidio gyd-fynd â chanllawiau NICE. Yn y diffiniad hwn, mae hunan-niweidio yn cynnwys ceisio cyflawni hunanladdiad yn ogystal â gweithredoedd yn cynnwys rhywfaint o fwriad

hunanladdol neu dim bwriad o gwbl. Efallai y bydd plant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio heb fwriad hunanladdol yn meddwl bod y diffiniad hwn yn rhy eang. Efallai y byddant o'r farn nad yw'n eu cynrychioli ac yn eu harwain i deimlo eu bod yn cael eu camddeall. Er ein bod yn cydnabod bod hunan-niweidio yn wahanol i hunanladdiad, mae'r rhai sy'n hunan-niweidio mewn perygl llawer mwy o geisio cyflawni hunanladdiad. Yn ogystal, gwyddom nad yw llawer o blant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio gyda bwriad hunanladdol yn cael eu cymryd o ddifrif. Gallai ceisio gwahaniaethu rhwng ceisio cyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio ar y cam hwn ychwanegu at hyn a chael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc. Rydym am sicrhau bod pawb yn cael cymorth priodol, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn waeth beth fo'u bwriad ar yr adeg dan sylw. Bydd ymgymryd â'r dull hwn yn cael effaith gadarnhaol ar Blant a Phobl Ifanc.

Wedi dweud hynny, trwy gydol oes y strategaeth byddwn yn bwrw ymlaen â chamau sy'n ceisio gwahaniaethu'n well rhwng ceisio cyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas gymhleth hon. Drwy wella ein dealltwriaeth, bydd modd i ni ddatblygu ymhellach gofal a chymorth priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ychwanegol ar blant a phobl ifanc.

Ar y llaw arall, efallai y bydd plant a phobl ifanc eraill o'r farn bod y diffiniad o hunan-niweidio yn rhy gul, gan ei fod yn methu â chydabod ymddygiadau eraill sy'n niweidiol i iechyd, megis bwyta niweidiol, ysmygu, defnyddio alcohol, defnyddio sylweddau ac ymddygiadau rhywiol peryglus. Efallai y bydd plant a phobl ifanc sy'n defnyddio ymddygiadau eraill sy'n niweidiol i iechyd er mwyn hunan-niweidio yn fwriadol, o'r farn nad yw'r diffiniad hwn yn eu cynrychioli, gan beri iddynt deimlo eu bod yn cael eu camddeall. Gwyddom fod hunan-niweidio ac ymddygiadau eraill sy'n niweidiol i iechyd yn aml yn rhannu ffactorau risg sylfaenol tebyg ac o ganlyniad, gall ymddygiadau a chymhellion ddod yn aneglur. Byddwn yn cydweithio â gwasanaethau sy'n cynnig cymorth i bobl ag ymddygiadau eraill sy'n niweidiol i iechyd er mwyn rhannu dysgu a sicrhau bod cymorth holistaidd yn cael ei ddarparu, gan osgoi sefyllfa lle mae pobl yn cael eu trosglwyddo o un gwasanaeth i'r llall – sy'n cyd-fynd ag ymagwedd dim drws anghywir mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant.

Gan ddefnyddio'r deunyddiau ysgrifenedig a nodwyd trwy'r adolygiad cyflym o ddeunyddiau ysgrifenedig, gwyddom fod rhai grwpiau o bobl mewn mwy o berygl o hunanladdiad a hunan-niweidio nag eraill. Plant a phobl ifanc yw un o'r grwpiau hyn. Nod y strategaeth hon yw darparu cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu tuag at blant a phobl ifanc, trwy'r lleoliadau y maen nhw'n ymgysylltu fwyaf â nhw, er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar Blant a Phobl Ifanc.

Mae camau gweithredu posibl ar gyfer y cynllun cyflawni y byddwn yn eu harchwilio trwy ddarparu'r strategaeth yn cynnwys:

- Sut y gallwn gefnogi orau y rhai sy'n ymateb i blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan hunan-niweidio a hunanladdiad.
- Parhau i weithio gyda meysydd polisi eraill i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys gwaith ar fwlio, y Strategaeth Tlodi Plant, rheoliadau diogelwch ar-lein, y Strategaeth Gofalwyr a gwaith y Tasglu Hawliau Anabledd.
- Cwmpasu'r posibilrwydd o wasanaeth cyswllt lechyd Meddwl i fyfyrwyr a staff Addysg Bellach.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddarpariaethau Deddf Diogelwch Ar-lein i droseddu achosion o gynorthwyo neu annog unigolion ar-lein i hunan-niweidio.
- Cydweithredu â'r tîm polisi iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod cymorth ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'i gynnwys yn y Fanyleb ar gyfer Gwasanaeth CAMHS.
- Codi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio gyda staff a myfyrwyr mewn lleoliadau addysg uwchradd drwy'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddylol.
- Datblygu llwybr hunan-niweidio yn y maes Gofal Sylfaenol (bydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc).
- Parhau i ehangu Gwasanaeth Cyngori a Chyswllt Cenedlaethol Cymru (NALS) er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n wynebu profedigaeth yn dilyn hunanladdiad a chynnig cymorth ar ôl y digwyddiad (mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc).
- Datblygu Datganiad Ansawdd Hunan-Niweidio (a fydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc).

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried natur heriol y pwnc ac yn cydnabod y gallai hyn ysgogi ymateb emosiynol gan ddarllenwyr, gan gynnwys y risg o drawma eilaidd. Er mwyn lliniaru hyn, bydd mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith; byddwn yn defnyddio iaith briodol a thosturiol drwy gydol y strategaeth ac yn sicrhau bod y broses o gyfeirio unigolion at wasanaethau cymorth yn cael lle amlwg yn y strategaeth. Bydd unrhyw sesiynau ymgysylltu â ffocws â Phlant a Phobl Ifanc yn cael eu hwyluso gan ddarparwyr arbenigol. Bydd y dull hwn yn cael ei ailadrodd ar gyfer unrhyw ddeunyddiau dilynol a ddatblygir ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio.

Rydym yn cydnabod y bydd y materion a'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag anghenion plant a phobl ifanc yn newid wrth gyflawni'r Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod gan blant hawl i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel a thrwy ymwreiddio hyn yn egwyddorion craidd y strategaeth, mae'n ein hymrwymo i ystyried hyn ym mhob cam o'r broses gyflawni.

Sylwadau terfynol ar chweched a seithfed adroddiad cyfnodol cyfunol y Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Mae Arsywlwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig gyda chysylltiad agos â'r maes gwaith hwn [g2311277.pdf](https://www.unhcr.org/refugees/2016/02/2311277.pdf).

Dyma'r adrannau perthnasol a'r ymateb iddynt:

- **Yr hawl i fywyd, goroesi a datblygiad (paragraff 22, c)** – Mae'r strategaeth yn cyfrannu at yr argymhelliad hwn trwy ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc ble bynnag y maen nhw yn y system. Mae Amcan 3 yn golygu y gallant gael mynediad at gymorth gan unrhyw un, gan gynnwys teulu, ffrindiau a/neu ofalwyr. Nod Amcan 4 yw sicrhau bod cymorth perthnasol (gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal iechyd meddwl, gofal brys a gofal argyfwng, a gwasanaethau trydydd sector) ar gael i blant sy'n hunan-niweidio neu sy'n synio am hunanladdiad, a/neu i'r rhai sy'n eu cefnogi. Mae Amcan 5 yn cydnabod bod gan wasanaethau eraill lle gall plant sy'n agored i niwed fod yn bresennol, gan gynnwys gofal cymdeithasol neu leoliadau cadw, fod â'r wybodaeth a'r adnoddau i nodi hunan-niweidio a synio am hunanladdiad a chynnig cymorth i'r rhai mewn angen.
- **Iechyd Meddwl (paragraff 42)** – Bydd gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl yn cael eu cyflawni drwy'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol. Mae Amcan 4 y Strategaeth yn nodi sut y bydd y Rhaglen Strategol ar gyfer iechyd meddwl yn adlewyrchu anghenion y rhai sy'n synio am hunan-niwed a/neu hunanladdiad.

Sylwadau Cyffredinol a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cyhoeddi Sylwadau Cyffredinol. Awgrymir eich bod yn eu hystyried: darperir y sylwadau perthnasol a'r ymateb isod:

4 - Diogelu Hawliau Pob Gweithiwr Mudol ac Aelodau o'u Teuluoedd - Mae'r prif fater a ystyrir mewn perthynas â'r sylw hwn yn ymwneud â rhoi mynediad a chanlyniadau cyfartal i boblogaethau mudol. Mae'r mater iaith yn arbennig o bwysig yn y maes gofal iechyd meddwl gan fod y ddeialog rhwng cleientiaid ac ymarferwyr yn ganolog i asesu diagnostig a thriniaeth⁴⁵. Canfuwyd bod rhwystrau iaith yn tarfu ar ddatblygiad y berthynas therapiwtig rhwng y cleient a'r ymarferydd hefyd. Mae'r ychydig astudiaethau sy'n bodoli ar iechyd meddwl a rhwystrau iaith wedi dangos yn gyson bod aelodau o leiafrifoedd ieithyddol yn gwneud llai o ddefnydd o wasanaethau iechyd meddwl na'r grwpiau sy'n dominyddu, ar gyfer lefelau trallod cymharol^{46,47}. Canfuwyd bod cynnwys dehonglwyr heb eu hyfforddi neu aelodau o'r teulu yn broblem oherwydd camddehongli a materion cyfrinachedd⁴⁸. Mae'r strategaeth yn cydnabod y

⁴⁵ Language_Barriers_in_Mental_Health_Care_20160122-10012-p3kp6y-libre.pdf (d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net)

⁴⁶ Laher N, Sultana A, Aery A, Kumar N. Access to language interpretation services and its impact on clinical and patients outcomes: a scoping review. Toronto: Wellesley Institute: Advancing Urban Health; 2018. t. 1–78.

⁴⁷ Delara M. Social determinants of immigrant women's mental health. Adv Public Health. 2016;2016:1–

11. <https://doi.org/10.1155/2016/9730162>.

⁴⁸ Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study | BMC Health Services Research | Full Text (biomedcentral.com)

canlynol 'receiving treatment in one's preferred language is particularly important for those requiring support for suicide and self-harm because much of the assessment and treatment relies on direct communication rather than objective tests or medication' ac mae'r egwyddorion a'r amcanion yn sefydlu y dylai pobl, drwy ddarparu cymorth 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn', allu cael mynediad at wasanaethau 'diwylliannol gymwys'.

13 - Hawl y plentyn i fod yn rhydd rhag pob math o drais – Mae'r asesiad effaith hwn yn cydnabod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â thrais gan gynnwys camdriniaeth, esgeulustod a bwlio. Bydd Amcan 1 yn ein galluogi i archwilio a deall y materion hyn ymhellach. Mae Amcan 2 yn caniatáu i ni gydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion hyn a bydd amcanion 3, 4 a 5 yn sicrhau bod cymorth ar gael i bobl lle bynnag y byddant yn ymgysylltyn.

15 - Hawl y plentyn i fwynhau'r safon iechyd uchaf y gellir ei gyrraedd – mae iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu nodi fel ffactorau risg ar gyfer hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae Amcan 4 yn canolbwyntio ar wella'r cymorth sydd ar gael i bobl mewn gwasanaethau perthnasol, gan gynnwys lleoliadau iechyd.

20 - Gweithredu hawliau'r plentyn yn ystod llencyndod – mae hon yn strategaeth pob oedran sydd wedi archwilio'r materion i bobl gydol eu hoes. Mae Tabl 1 yn nodi materion penodol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ifanc gan gynnwys, y glasoed, rhywioldeb, pwysau arholiadau, pwysau gwaith, pontio rhwng gwasanaethau, perthnasoedd, symud cartref a byw'n annibynnol.

21 - Plant mewn sefyllfaoedd stryd – mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu mynediad a chanlyniadau cyfartal i bawb a darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddai hyn yn cynnwys plant mewn sefyllfaoedd stryd. Mae'r amcanion yn y strategaeth yn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r materion penodol sy'n wynebu plant mewn sefyllfaoedd stryd a sicrhau bod cymorth ar gael iddynt lle bynnag y byddant yn ymgysylltyn.

Dyma'r ddolen i'r Sylwadau Cyffredinol::

tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/TBSearch.aspx?Lang=en&TreatyID=5&DocTypeID=11

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i BroTOCOLau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

Erthyglau neu BroTOCOL Dewisol y Confensiwn Yn Gwella neu'n Herio?

Erthygl 2 (dim gwahaniaethu): Dylai pob plentyn dan 18 oed fwynhau'r holl hawliau a nodir yn CCUHP heb wahaniaethu, gan gynnwys y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

Yn Gwella: Fel strategaeth pob oedran mae dau bwynt o dan Erthygl 2. 1) mae angen gwneud ymdrechion penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at eu hawliau, oherwydd heb gymorth maen nhw'n llai tebygol o allu gwneud hyn, o gymharu ag oedolion; mae adrannau sy'n benodol i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc yn y strategaeth yn cydnabod hyn, a 2) mae yna grwpiau penodol o Blant a Phobl Ifanc sydd angen cymorth ychwanegol, a chymorth sydd wedi'i dargedu i raddau mwy helaeth, fel y gellir gwireddu eu hawliau. Bydd cael adrannau o'r strategaeth sy'n cydnabod bod rhai grwpiau o blant yn fwy tueddol i gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio, e.e. gofalmwr ifanc, ac amcanion sy'n mynd i'r afael â hyn, yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas ag Erthygl 2.

Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Yn Gwella: Mae cydweithredu aml-sector a dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn egwyddorion allweddol sy'n rhan o'r strategaeth drwyddi draw. Mae hyn yn amlwg yn Amcan 2, sy'n anelu at gyflawni camau gweithredu traws-lywodraethol a thraws-sector sydd gyda'i gilydd yn mynd i'r afael ag ysgogiadau hunanladdiad a hunan-niweidio; ac yn lleihau mynediad at ddulliau o gyflawni hunanladdiad. Mae hyn yn cysylltu â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol sy'n cynnwys egwyddorion NYTH (dim drws anghywir) drwyddi draw. Nod Amcan 4 yw darparu ymyrraeth a thriniaeth amserol, dosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r rhai sy'n hunan-niweidio neu'n synio am hunanladdiad trwy leoliadau gwasanaeth perthnasol; ac mae Amcan 5 yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ymhlith asiantaethau sy'n cefnogi pobl â heriau sy'n cynyddu eu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio, fel y gallant adnabod risg a chydweithio ag asiantaethau partner i gynnig cymorth holistaidd, ystyriol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Erthygl 5: Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth iddynt dyfu, yn dysgu defnyddio eu hawliau yn gywir.

Yn Gwella: Fel rhan o'r strategaeth hon, ein nod yw uwchsgilio staff sy'n gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc a rhieni/gofalmwr fel y gallant ymateb yn well i unrhyw faterion a godant ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio. Drwy'r strategaeth hon, byddwn yn annog gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalmwr i fod ag ymagwedd tuag at hunanladdiad a hunan-niweidio sy'n dosturiol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyriol o drawma.

Bydd cyflawni'r strategaeth yn fuddiol o ran codi ymwybyddiaeth o hawliau plant, yn enwedig mewn perthynas ag Erthygl 24.

Erthygl 6 (Bywyd, goroesi a datblygiad): Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Yn Gwella: Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar warchod bywyd trwy atal hunanladdiad. Ar y cyd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, mae'n ceisio hyrwyddo iechyd da hefyd, trwy atal a thrin cyflyrau iechyd meddwl, ond hefyd trwy fynd i'r afael â'r elfennau ehangach sy'n cyfrannu at hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae codi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio yn bwysig i Blant a Phobl Ifanc hefyd, oherwydd gallant ddod ar draws pobl sy'n hunan-niweidio neu sy'n synio am hunanladdiad. Bydd codi ymwybyddiaeth yn lleihau stigma ac yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder i Blant a Phobl Ifanc ymateb i rywun mewn trallod.

Erthygl 9: Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni oni bai nad ydynt yn derbyn gofal priodol – er enghraifft, os yw rhiant yn brifo plentyn neu ddim yn gofalu am blentyn. Dylai plant nad ydynt yn byw gyda'i gilydd aros mewn cysylltiad â'r ddau riant oni bai y gallai hyn niweidio'r plentyn.

Yn Gwella: Cyfeirir at gam-drin ac esgeuluso plant fel ffactorau risg ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae bod mewn gofal neu fod â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn cael eu cydnabod fel ffactorau risg i blant a phobl ifanc. Nod y strategaeth yw sicrhau ein bod yn deall yn well y materion sy'n wynebu plant sy'n cael eu heffeithio gan faterion domestig fel camdriniaeth a/neu esgeulustod, i'w hatal ac i sicrhau bod cymorth ar gael i blant a phobl ifanc lle bynnag y byddant yn ymgwyflwyno.

Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i leisio'u barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

Yn Gwella: Mae'r strategaeth yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn y cynllun Cymru Iachach gyda'i ffocws ar ofal integredig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cael ei ddarparu mewn ffordd sydd wedi'i llywio gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Rydym wedi ymgynghori â'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol; ymgymryd â gwaith ymgysylltu pwrpasol i gasglu barn Plant a Phobl Ifanc ar y strategaeth ddrafft; a byddwn yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â'r camau rydym yn eu cymryd fel rhan o'r strategaeth hon.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnwys y rhai sydd â phrofiad byw, cymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu a sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r dull pob oedran wedi nodi materion penodol y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu; byddwn yn targedu ymdrechion i gynnwys plant a phobl ifanc mewn sgysiau am y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r materion hynny drwy bolisi a chyflawni.

Erthygl 13: Rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i fynegi ei feddyliau a'i farn ac i gael gafael ar bob math o wybodaeth, ar yr amod nad yw'n anghyfreithlon.

Yn Gwella: Fel rhan o'r broses o ymgynghori ar y strategaeth, gwnaethom ymgysylltu'n ddiwyd â phlant a phobl ifanc ac mae fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Strategaethau a'r Cynlluniau Cyflawni wedi'u cynhyrchu ac ar gael ar gais. Mae'r Strategaeth yn cyfeirio'n benodol at y CCUHP a'r materion hynny sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae hyn i gyd yn grymuso plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r polisi a chmau gweithredu wrth symud ymlaen.

Erthygl 17: Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy o'r cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hyrwyddo deunyddiau a allai niweidio plant.

Yn Gwella: Mae Amcan 2 y strategaeth yn ymrwymo i barhau i weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU i wella diogelwch ar-lein. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill trwy'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r Bil Cyfiawnder Troseddol sy'n ceisio gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr ar-lein i atal hyrwyddo a chynorthwyo 'hunan-niweidio difrifol' (gan gynnwys hunanladdiad). Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cynnwys darpariaeth benodol i wella diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc. Nod Amcan 2 yw sicrhau bod adroddiadau cyfrifol yn y cyfryngau ar hunan-niweidio a hunanladdiad hefyd. Mae'r strategaeth yn cyfeirio'r gynulleidfa at ganllawiau'r Samariaid sy'n cynnwys cyfeiriadau penodol at blant a phobl ifanc trwy, er enghraifft, gydnabod y gallant fod yn fwy agored i fraw heintus hunanladdiad.

Mae'r strategaeth ei hun yn cydnabod yr angen i wybodaeth fod ar gael mewn gwahanol fformatau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Bydd gwybodaeth a ddatblygwyd fel rhan o'r broses o weithredu'r strategaeth yn rhoi sylw i'w chynulleidfa.

Bydd fersiwn Plant a Phobl Ifanc a fersiwn hygyrch o'r strategaeth yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r strategaeth ac ar gael ar gais.

Erthygl 19: Rhaid i lywodraethau amddiffyn plant rhag trais, camdriniaeth a rhag cael eu hesgeuluso gan unrhyw un sy'n gofalu amdanynt.

Yn Gwella: Mae'r asesiad effaith hwn yn cydnabod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â thrais gan gynnwys camdriniaeth, esgeulustod a bwlio. Bydd Amcan 1 yn ein galluogi i archwilio a deall y materion hyn ymhellach. Mae Amcan 2 yn caniatáu i ni gydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion hyn a bydd amcanion 3, 4 a 5 yn sicrhau bod cymorth ar gael i bobl lle bynnag y byddant yn ymgysylltyn.

Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal a chymorth arbennig er mwyn gallu byw bywydau llawn ac annibynnol.

Yn Gwella: Mae'r strategaeth yn cydnabod yn benodol pobl ag anableddau (gan gynnwys plant a phobl ifanc) fel grŵp agored i niwed. Mae Amcan 5 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ymhlith asiantaethau sy'n cefnogi pobl sydd â heriau sy'n cynyddu eu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio fel y gallant adnabod risg a chydweithio ag asiantaethau partner i gynnig cymorth holistaidd, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae asiantaethau yn yr achos hwn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wasanaethau niwroddatblygiadol ac anabledd dysgu; gwasanaethau gofal cymdeithasol; gwasanaethau ariannol; lleoliadau addysgol; a lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol.

Erthygl 24 (iechyd, dŵr, bwyd a'r amgylchedd): Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn cadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Yn Gwella: Mae'r strategaeth yn eistedd ochr yn ochr â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol sy'n ymwneud â gwella mynediad at asesiadau, triniaeth a chymorth priodol i'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl.

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn ymwneud â gwella gwasanaethau fel bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at y gofal iechyd a'r wybodaeth orau bosibl i gadw'n iach drwy wneud y canlynol:

- Gwella sgiliau'r gweithlu.
- Gwella cymorth yn y gymuned.
- Canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, sy'n cael ei gefnogi gan y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, mynediad at gwnsela ysgol a mewngymorth CAMHS.
- Darparu gwelliannau gwasanaeth i Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol a CAMHS arbenigol.
- Gwella mynediad at therapiau seicolegol.
- Hyrwyddo mynediad at wybodaeth am iechyd meddwl a lesiant da (er enghraifft, trwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol).

Bydd *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, yn archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer hunan-niweidio (a fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc).

Erthygl 27: Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd sy'n methu â fforddio darparu hyn.

Yn Gwella: Mae'r strategaeth, ochr yn ochr â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, yn cyfeirio'n benodol at benderfyniadau cymdeithasol

ehangach iechyd meddwl, hunanladdiad a hunan-niweidio gan gynnwys iechyd corfforol gwael, iechyd meddwl gwael, a phwysau ariannol. Mae'r ddwy strategaeth wedi'u datblygu o safbwynt iechyd cyhoeddus, ataliol ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud â'r meysydd polisi perthnasol i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae Amcan 2 o *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, yn ymrwmo Llywodraeth Cymru i weithio ar y cyd ag adrannau eraill y llywodraeth i fynd i'r afael ag ysgogiadau hunan-niweidio a hunanladdiad.

Erthygl 28: Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Yn Gwella: Nod y strategaeth yw sicrhau bod dealltwriaeth ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio, gan gynnwys sut i adnabod yr arwyddion a sut i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt, yn cael ei datblygu a'i meithrin ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys o fewn lleoliadau addysg fel bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu deall a'u parchu.

Mae'r Strategaeth wedi ymrwmo i arfogi ymarferwyr addysg gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r arweiniad i adnabod a helpu'r rhai sy'n hunan-niweidio neu sydd â meddyliau hunanladdol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth gywir ac yn gallu parhau mewn addysg.

Mae Amcan 2 o *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, yn ymrwmo Llywodraeth Cymru i weithio ar y cyd ag adrannau eraill y llywodraeth i fynd i'r afael ar y cyd ag ysgogiadau hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ac archwilio posibiliadau pellach i gefnogi pobl sy'n synio am hunanladdiad ac sy'n hunan-niweidio a gwell llesiant trwy'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol. Bydd yn cynnwys ac yn archwilio anghenion y rhai mewn lleoliadau addysg a'r rhai sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

Erthygl 30: Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r mwyafrif o bobl yn y wlad yn eu rhannu ai peidio.

Yn Gwella: Drwy gydol y strategaeth, rydym wedi tynnu sylw at bwysigrwydd pobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn gallu cael mynediad at wasanaethau gan ddefnyddio'r iaith o'u dewis.

Erthygl 33: Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o amddiffyn plant rhag cyffuriau peryglus

Yn Gwella: Mae'r strategaeth yn cydnabod bod camddefnyddio sylweddau yn ffactor risg allweddol ac mae'n diffinio pob person (gan gynnwys plant a phobl ifanc) sydd â heriau camddefnyddio sylweddau yn y grŵp risg uchel. Mae Amcan 2 yn ymrwmo Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull traws-lywodraethol o fynd i'r afael â

phrif ysgogwyr hunanladdiad a hunan-niweidio ac mae'r Cynllun Cyflawni a'r Fframwaith Triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau wedi'u nodi fel dulliau y dylid dibynnu arnynt ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn llwyddiannus. Bydd y tîm hunanladdiad a hunan-niweidio yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr camddefnyddio sylweddau i adolygu'r dystiolaeth a nodi camau gweithredu a all gryfhau eu cyfraniad at heriau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, gan gynnwys lle efallai y bydd angen mabwysiadu dull wedi'i dargedu i reoli materion sy'n benodol i blant a phobl ifanc. Nod Amcan 2 yw lleihau mynediad at ddulliau o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio hefyd. Bydd hyn yn golygu atal pobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) rhag cael mynediad at nifer peryglus neu uchel o gyffuriau a allai arwain at hunanladdiad bwriadol neu anfwriadol.

Erthygl 39: Dylai plant sydd wedi eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch.

Yn Gwella: Un o egwyddorion craidd y strategaeth yw sicrhau ei bod yn cael ei harwain gan Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma. Bydd unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir trwy ein strategaeth yn ystyriol o drawma, yn garedig, yn dosturiol ac yn dangos dealltwriaeth. Bydd y Fframwaith hefyd yn caniatáu i ni wneud ein rhan i helpu pawb yng Nghymru i ddeall y berthynas rhwng trawma/trallod a hunanladdiad a hunan-niweidio.

Erthygl 37: Ni ddylai plant sy'n cael eu cyhuddo o dorri'r gyfraith gael eu lladd, eu harteithio, eu trin yn greulon, eu rhoi yn y carchar am byth, neu eu rhoi yn y carchar gydag oedolion. Dylai'r carchar fod y dewis olaf a dim ond am y cyfnod lleiaf posibl. Dylai plant yn y carchar gael cymorth cyfreithiol a dylent allu cadw mewn cysylltiad â'u teulu.

Yn Gwella: Drwy ein hadolygiad cyflym o dystiolaeth, gwnaethom nodi perthynas rhwng cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae Amcan 5 y strategaeth yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau mewn asiantaethau sy'n cefnogi pobl sydd â heriau sy'n cynyddu eu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio. Bydd hyn yn eu galluogi i nodi risg a chydweithio ag asiantaethau partner i gynnig cymorth holistaidd, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae asiantaethau yn yr achos hwn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i garchardai (gan gynnwys sefydliadau troseddwy'r ifanc), swyddogion heddlu, a swyddogion prawf.

Erthygl 40: Plant sy'n torri'r gyfraith. Mae gan blant sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r gyfraith yr hawl i gymorth cyfreithiol a thriniaeth deg. Dylai fod llawer o atebion i

helpu'r plant hyn i ddod yn aelodau da o'u cymunedau. Dewis olaf fydd y carchar bob tro.

Yn Gwella: Fel uchod ar gyfer erthygl 37.

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Penderfynodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth hon na fydd y cynnig polisi yn effeithio'n negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y mae eu hawliau yn cael eu diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion.

I gael rhagor o wybodaeth am CCUHP a'i Brotoolau Dewisol, ewch i Dudalen y fewnwyd ar Hawliau Plant.

4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?
 - *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gymeradwyo gan eich Dirprwy Gyfarwyddwr.*
 - *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu hintegreiddio yn eich cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.*

Bydd yr holl Gyngor Gweinidogol ynghylch *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cadarnhau ein bod wedi ystyried CCUHP wrth ddatblygu'r polisi hwn. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyflwyno i Weinidogion i'w ystyried ochr yn ochr â'r Strategaeth. Bydd y cyngor cysylltiedig yn crynhoi mai'r casgliad cyffredinol, yn unol â'r asesiad, yw y bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc – ond gan nodi y bydd angen gwneud mwy drwy'r camau gweithredu mwy targedig yn y Cynllun Cyflawni. Byddwn yn tynnu sylw at y risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad byw wrth gyflawni camau gweithredu, a sut mae hyn yn cael ei liniaru trwy waith ymgysylltu wedi'i deilwra â phlant a phobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddiogelu.

5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â *Dealltwriaeth*, y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio.

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe adrannol i'w gyhoeddi.*
- Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth yn y broses hon, ewch i'r [Dudalen Fewnrwyd Hawliau Plant](#) sy'n cynnwys adnoddau amrywiol.

6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Yn ystod haf 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru broses ymgysylltu cyn ymgynghori ar yr Amcanion drafft arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (yr enw ar y pryd) ac egwyddorion ategol. Cyhoeddwyd arolwg ar-lein, a chynhaliwyd grŵp ffocws gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol,⁴⁹ gan gynnwys 8 o bobl ifanc gyda phrofiad byw o iechyd meddwl, wedi'i hwyluso gan Cymru Ifanc. Ers hynny, mae swyddog wedi dychwelyd i'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol i roi adborth ar sut mae eu barn wedi llywio'r ddwy strategaeth ac maen nhw wedi cwrdd â'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sydd hefyd wedi trafod sut mae eu barn wedi llywio'r strategaethau.

Fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol ar gyfer y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio drafft (yr enw ar y pryd), roedd wyth ar hugain o blant a phobl ifanc, rhwng 7 a 25 oed, wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws a hwyluswyd gan y Labordy Cyd-gynhyrchu. Mae crynodeb o'r

⁴⁹ Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc 14-25 oed sydd â phrofiad byw neu ddiddordeb arbennig mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant. Nod y grŵp yw mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a rennir gan bobl ifanc ac adolygu mentrau iechyd meddwl a llesiant gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ledled Cymru.

ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru [Strategaeth ddrafft atal hunanladdiad a hunan-niweidio | LLYWODRAETH.CYMRU].

Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi dogfen ymateb i'r ymgynghoriad hefyd. Bydd hyn yn tynnu sylw at sut y gwnaethom ailddrafftio'r strategaeth, a datblygu camau gweithredu ar gyfer y cynllun cyflawni, yng ngoleuni dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, fel rhan o'u comisiwn ymgysylltu, yn rhoi adborth i'r holl grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n ymwneud â dogfen *chi'n dweud, ni'n gwneud*.

Os yw eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant i gael rhagor o gyngor.

7. Monitro ac Adolygu

- *Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i nodi a welwyd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.*
 - *Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-deddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen i chi ddiweddar'u'r Asesiad i ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.*
 - *Gall yr arweinydd polisi ailedrych ar y fersiwn o'u Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd, ei ailenwi'n adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a diweddar'u'r dystiolaeth o effaith. Dylid cyflwyno'r Asesiad Effaith a Adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion ynghylch diwygio'r polisi, yr arfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi'r Asesiad hwn a adolygwyd hefyd.*
- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Ar 15 Chwefror 2024 cyfarfu aelodau o Dîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr Is-gangen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant i gyflwyno'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) drafft sydd wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn.

Rhoddodd y grŵp adborth ar CRIAs ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol drafft ac ar gyfer y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (SSH) (yr enw ar y pryd) drafft ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**.

Bydd cyfleoedd parhaus i adolygu'r cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r strategaeth a'i Hasesiadau Effaith ategol (gan gynnwys y CRIA), drwy rôl y Bwrdd Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Bydd cylch gorchwyl y Bwrdd yn cynnwys dyletswydd i adolygu polisïau a chymau gweithredu yng nghyd-destun hawliau plant a bydd aelodaeth yn cynnwys y rhai sy'n gallu cynrychioli plant a phobl ifanc.

Ochr yn ochr â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi fframwaith canlyniadau sy'n cyfeirio at y ffordd y byddwn yn monitro canlyniadau cyffredinol y strategaeth a'r camau gweithredu penodol yn y cynllun cyflawni. Bydd monitro'r canlyniadau yn cynnwys monitro'r effeithiau, gan gynnwys yr effeithiau cadarnhaol ac unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r modd y'i rhoddir ar waith?
Fel rhan o'r gwaith o gynnal yr adolygiad, gwnaed diwygiadau i'r strategaeth er mwyn sicrhau ei bod hi, a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig, yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru. Er enghraifft, mae cyfeiriad at CCUHP wedi'i gynnwys yn yr egwyddor graidd ac mae'r naratif pob oedran wedi'i gryfhau gyda'r defnydd o ddadansoddiad gydol oes yn nhabl 1.

Atodiad A – Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant

Adborth ar Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Cafodd rhywfaint o'r adborth ei ddarparu gyda gwelliannau i'r CRIAs drafft. Ystyriwyd rhai, yr oedd gofyn rhoi ystyriaeth fwy manwl a chyfannol iddynt, ochr yn ochr ag adborth yn ystod y cyfnod ymgynghori – ac maent wedi llywio'r iteriad hwn o'r CRIA, y strategaeth a'r cynllun cyflawni ategol.

- Croesawodd y Grŵp lefel y manylder yn y CRIAs drafft.
- Croesawodd y Grŵp y 'cyfranogiad helaeth' gyda phlant a phobl ifanc fel y manylir yn y CRIAs – ac roedd yn hoff o'r trefniant a ddefnyddiwyd.
- Ceisiodd y Grŵp gael sicrwydd bod ffocws 'pob oedran' y strategaethau yn cynnwys ffocws ar blant a phobl ifanc.
- Mynegodd y Grŵp fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cynyddol wrth weithredu arsylwadau terfynol CCUHP a nododd iechyd meddwl fel un o chwe maes sy'n peri pryder.
- Awgrymodd y Grŵp y dylid diwygior fersiwn ddrafft Plant a Phobl Ifanc o'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio i gynnwys y gair 'Atal' ar ddechrau 'Mae Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn fusnes i bawb'.
- Roedd y Grŵp yn cymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn â chyhoeddi fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r strategaeth gyda mynediad agored ar-lein. Trafododd y grŵp risgiau diogelu posibl wedi'u cydbwysu â chyfleoedd i ymgysylltu'n effeithiol ac ystyrion. Awgrymodd y Grŵp, os bydd y penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â chyhoeddi fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio, y dylid nodi'n glir y rhesymau dros wneud hynny.
- Nododd y grŵp anghysondeb rhwng y ffordd y cyfeiriwyd at rieni wrth ystyried Erthygl 5 o'r CCUHP rhwng y CRIA Iechyd Meddwl a'r CRIA Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Mae hyn wedi'i gywiro.
- Nododd y Grŵp fod ystyriaeth o Erthygl 37 o'r CCUHP wedi'i hepgor a'i bod yn berthnasol i hawliau plant sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol sy'n cael eu cydnabod fel grŵp agored i niwed yn y strategaethau a'r CRIAs. Mae hyn wedi'i gwblhau.
- Roedd y Grŵp yn cydnabod yr angen i ystyried hawliau plant mewn lleoliadau addysg hefyd.

- Tynnodd y Grŵp sylw at yr angen i ystyried materion cyllidebol ac adnoddau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaethau a sut y gallai hyn effeithio ar hawliau plant.
- Trafododd y Grŵp bwysigrwydd sicrhau bod datblygu'r strategaethau ymhellach a'u gweithredu yn mabwysiadu dull o'r gwaelod i fyny sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc gymryd rhan ystyrlon yn y 'sut' nid dim ond y 'beth'. Trafododd y Grŵp rôl fframwaith NYTH wrth wneud hyn.
- Trafododd y Grŵp bwysigrwydd gweithio traws-lywodraethol er mwyn sicrhau bod camau yn mynd rhagddynt mewn rhannau eraill o'r llywodraeth i atal iechyd meddwl gwael, hunanladdiad a hunan-niweidio a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael mewn lleoliadau allweddol fel ysgolion.